CAERGYBI/HOLYHEAD

Cyngor Tref Town Council

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2024 Rhan 1 – Adran 6

Cyngor Tref Caergybi

Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Cyngor Tref Caergybi yn darparu ystod o wasanaethau i'w gymuned leol sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth. Ymhlith y rhain mae:

Cyfrifoldeb am bum parc chwarae a mynwent.

Cynnal a chadw mannau gwyrdd y traeth.

Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy fynd ar drywydd nodau cynaliadwyedd ac arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd.

Rydym yn gwasanaethu oddeutu o breswylwyr. £ yw'r praesept ar gyfer 2024/25

Adroddiad ar y Camau Gweithredu

| Camau gweithredu yr ymgymerwyd â nhw er mwyn: | | Wedi'u monitro gan: |
|---|---|---|
| Gwreiddio bioamrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau a Chaffael | Cadw mewn cof ystyriaethau bioamrywiaeth wrth ystyried ceisiadau cynllunio a materion cysylltiedig eraill, megis gorchmynion gwyro llwybrau troed a materion ynghylch gwasanaeth cymdogaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth am fioamrywiaeth a'i phwysigrwydd. | Annog y gymuned yn ei chyfanrwydd i wirfoddoli yng nghyd-destun natur / mannau gwyrdd<br><br>Rhoi ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol fanylion y camau gweithredu a gymerwyd i helpu bioamrywiaeth. | Trwy adborth gan drigolion lleol ac aelodau'r Cyngor.<br><br>Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau. |
| Adfer a chreu cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol gwydn a chadarn | Plannu basgedi crog a bocsys plannu gyda blodau brodorol sy'n gyfeillgar I beillwyr.<br><br>Cefnogwyd coetir cymunedol lleol, rhywbeth sydd wedi esgor ar waith plannu coed a gwrychoedd ac sydd, bellach, yn hafan i fywyd gwyllt.<br><br>Creu rhestr o drefniadau torri gwair trwy leihau pa mor aml y torrir gwair er mwyn annog blodau gwyllt i dyfu a sicrhau cysgod i famaliaid ac ymlusgiaid bychain | Cynyddodd ardal y cynefin.<br><br>Cyflwynwyd nifer o safleoedd nythu. |
| Mynd i'r afael â ffactorau negyddol: lleihau llygredd, defnyddio atebion sy'n seiliedg ar natur. | Polisi caffael cynaliadwy sy'n cynnwys sicrhau fod cyflenwadau swyddfa, megis papur, cynhyrchion glanhau a dodrefn swyddfa yn gynaliadwy. (e.e yn lleol neu wedi'u gwneud o ddeunyddiau ailgylchu/ y mae modd eu hailgylchu. | Aethpwyd i'r afael â rhywogaethau ymledol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Prynwyd bin compostio ar gyfer ein gwastraff gwyrdd<br><br>Defnyddio offer mwy ecogyfeillgar, offer sy'n cael eu pweru gan fatri / offer y gellir eu hailwefru.<br><br>Defnyddio llai ar blaladdwyr – eu defnyddio lle bo angen yn unig er mwyn rheoli rhywogaethau anfrodorol ymledol, megis canclwm Japan. | |
| Defnyddio, gwella a rhannu tystiolaeth. | Ceisio cyngor ar safleoedd lleol a rhywogaethau o ddiddordeb gan y canolfannau cofnodion amgylcheddol lleol. | Defnyddio cyngor arbenigol |
| Cefnogi capasti a/neu sefydliadau eraill. | Wedi gweithio mewn partneriaeth ag ymddiriedolaeth bywyd gwyllt lleol.<br><br>Wedi gweithio ochr yn ochr â Chadw Cymru'n daclus i greu coedwig fach. | Ffurfiwyd partneriaethau i sicrhau budd bioamrywiaeth. |

Adolygu Dyletswydd adran 6.

Beth sydd wedi gweithio'n dda?

Mae creu ardaloedd blodau gwyllt a phlanhigion wedi bod yn llwyddiant. Yn enwedig gan ei fod wedi bod yn ddeniadol i drigolion, yn ogystal â helpu bioamrywiaeth a chreu arbedion drwy dorri gwair yn unol ag amserlen.

Beth oedd y rhwystrau?

Dim arbenigedd i nodi newidiadau sydd eu hangen neu beth fyddai'r arfer gorau.

Beth fyddwch chi'n ei newid?

Byddwn yn gweithio'n agos ochr yn ochr â thimau Amgylchedd Lleol yn y Cyngor i geisio cyngor gan swyddogion.

Sut a phryd y bydd dyletswydd adran 6 yn cael ei monitro a'i hadolygu?

Bydd y ddyletswydd yn cael ei monitro trwy archwiliadau wythnosol, misol a blynyddol. Bydd y cynllun yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r adroddiadau hyn ac unrhyw dystiolaeth neu wybodaeth arall a fydd ar gael i'r Cyngor.

Cyngor Tref Caergybi Neuadd y Dref Caergybi LL65 1HN
Ffon/Tel 01407 764608
Ebost/Email reception@holyheadcouncil.co.uk
Gwefan/Website : www.holyheadtowncouncil.com

CAERGYBI/HOLYHEAD

Cyngor Tref / Town Council

Environment (Wales) Act 2024 Part 1 – Section 6

Holyhead Town Council

Introduction and Context

Holyhead Town Council provide a range of services to its local community which have an impact on biodiversity. These include:

Responsibility for 5 playing parks and a church yard.

Maintenance of the beach greens.

We promote sustainability and biodiversity by pursuing sustainability goals and sustainable practices whenever possible.

We serve approximately Residents. The precept for 2024/25 is £

Action Report

| Action Carried out to: | | Monitored by: |
|---|---|---|
| Embed biodiversity into decision making & Procurement | Take into account biodiversity considerations when considering planning applications and other associated matters, such as footpath diversion | |

| | | |
|---|---|---|
| | orders and neighbourhood service matters. | |
| Raise awareness of biodiversity & its importance. | Encourage the community as a whole to volunteer in the context of nature/green spaces<br><br>Post details of the actions taken to help biodiversity on social media platforms. | Through feedback from local residents and Council members.<br><br>Number of people taking part in activities. |
| Restore & Create habitats and resilient ecological networks | Plant hanging baskets and planters with native pollinator friendly flowers.<br><br>Supported a local community woodland which has delivered tree& shrub planting which is now a haven for wildlife.<br><br>Create a schedule of mowing regimes by reducing the frequency of cuts to encourage wildflowers to grow and providing cover for small mammals and reptiles. | Area of habitat increased.<br><br>Number of nesting sites provided. |
| Tackle negative factors: reduce pollution, use nature based solutions. | Sustainable procurement policy which includes ensuring office supplies such as paper, cleaning products and office furniture are sustainably sourced. (E.g. locally or made from recyclable/recycled materials. | Areas of invasive species tackled. |

| | | |
|---|---|---|
| | Purchased a composting bin for our green waste.<br><br>The use of more environmentally friendly tools, battery powered/ rechargeable tools.<br><br>Reduce the use of pesticides to only where necessary, such as to control invasive non-native species such as Japanese knotweed. | |
| Use, improve and share evidence. | Take advice from the local environmental record centres on local sites and species of interest. | Use of expert advice. |
| Support capacity and/or other organisations. | Worked in partnership with local wildlife trust.<br><br>Worked alongside keep Wales tidy to create a mini forest. | Partnerships formed to deliver bio-diversity benefit. |

Review of s6 Duty.

What has worked well?

The creation of wildflower and plant areas has been a success. Especially as it has proved attractive to residents in addition to helping biodiversity along with savings through mowing on a schedule.

What have the barriers been?

Lack of expertise to identify changes needed or what the best practice would be.

What will you change?

We will work closely alongside Local Environment teams within the Council to seek advice from officers.

How and when will the s6 duty be monitored and reviewed?

The duty will be monitored through weekly, monthly and annual inspections. The plan will be reviewed in light of these reports and any other evidence or information that is made available to the Council.

Cyngor Tref Caergybi Neuadd y Dref Caergybi LL65 1HN
Ffon/Tel 01407 764608
Ebost/Email reception@holyheadcouncil.co.uk
Website : www.holyheadtowncouncil.com